

1

Cefndir

Roedd Mr X wedi cael diagnosis deuol o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Er y gallai ymgyflwyno yn iach ar adegau, gallai hefyd gyflwyno risg uchel o niwed iddo'i hun ac i weithwyr proffesiynol.

Cafodd Mr X ei alw'n ôl i'r carchar ym mis Hydref 2021, lle cafodd gefnogaeth gan nifer o wasanaethau a oedd yn bryderus ynghylch y ffordd yr oedd yn ymgyflwyno. Ar ôl ei ryddhau ym mis Mawrth 2022, parhaodd i brofi paranoia ac iechyd meddwl andwyol. Cafodd ei weld diwethaf gan weithwyr proffesiynol ar 7 Ebrill, pan gytunodd i gael cymorth mewn argyfwng ond gadawodd cyn y gellid ei weld. Yn anffodus, cafwyd hyd i Mr X yn farw ar 20 Ebrill, tua thair wythnos ar ôl ei ryddhau.



CWMPAS 1 2022

Adolygiad Ymarfer

Oedolion Cryno



2

Goruchwyliaeth Amlasiantaeth a Rhannu Gwybodaeth

Er ei fod yn gymhleth, mae tystiolaeth dda o ddulliau amlasiantaeth o asesu a rheoli'r risg yr oedd Mr X yn ei gyflwyno a rhoi cynlluniau ar waith. Er gwaethaf y risgiau, roedd gweithwyr proffesiynol yn ddygn yn eu hymdrechion i roi cefnogaeth ar waith i Mr X, ac roeddent yn cyfathrebu'n dda; fodd bynnag, nid oedd yn glir ar adegau pwy oedd yn gyfrifol am oruchwylio gofal Mr X, ac roedd y symud rhwng ardaloedd byrddau iechyd o ganlyniad i fynd i mewn ac allan o'r carchar yn ychwanegu at y cymhlethdod. Er gwaethaf y cyfathrebu da a oedd yn amlwg, nodwyd problemau o ran rhannu gwybodaeth, ac roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oeddent yn gallu rhannu gwybodaeth er gwaethaf y fframweithiau statudol oedd ar waith i ganiatáu hyn.

7

Gwella systemau ac ymarfer

Dylid cefnogi symud rhwng ardaloedd trwy drosglwyddiadau amserol ac effeithiol. Byddai adolygiad o'r gwasanaethau sydd eu hangen a nodi asiantaethau arweiniol, rolau a chyfrifoldebau ar adegau hollbwysig yn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.

- Dylai pob asiantaeth ystyried sut i wneud prosesau gwneud penderfyniadau a gofal/triniaeth/cymorth yn fwy cynhwysol i unigolion a all weithiau beri risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill.
- Ar gyfer achosion cymhleth, dylai'r gwaith cynllunio rhyddhau bob amser gynnwys cynllun wrth gefn y gellir ei roi ar waith ar fyr rybudd. Pan fo carcharu pellach yn bosibl, ond nid yn bendant, dylai asiantaethau gydweithio i gael cynllun wrth gefn sy'n rheoli risg ac yn cynnig cymorth perthnasol i'r unigolyn.

3

Yr "asesiad porth"

Roedd gweithwyr proffesiynol yn bryderus iawn am Mr X pan oedd yn y carchar. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl i'w gadw yn y ddalfa, gan fod deddfwriaeth a phrosesau gwahanol yn berthnasol i unigolion yn y carchar, ac roedd yr amser y byddai'r broses hon yn ei chymryd i gael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arno ymhell y tu hwnt i weddill hyd ei ddeddfryd. Felly roedd angen i weithwyr proffesiynol aros am ei ddyddiad rhyddhau, ac ar ôl hynny gellid defnyddio adran wahanol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl i'w gadw. Fodd bynnag, ar ôl cael ei asesu ar y pwynt hwn (wrth y "porth"), barnwyd nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gadw yn gaeth. Felly cafodd ei ryddhau i'r gymuned, ardal wledig lle'r oedd gwasanaethau cymorth y tu allan i oriau gwaith a/neu wasanaethau cymorth arbenigol y gallai gael mynediad atynt yn gyfyngedig.

6

Gwella systemau ac ymarfer

- Mae angen sicrhau bod gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai yn cael canllawiau ynghylch eu gallu i rannu gwybodaeth bersonol drwy bwerau a fframweithiau deddfwriaethol. Pan nodir rhwystrau, dylid egluro llwybrau uwchgyfeirio i staff, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cael ei rhoi i alluogi rhannu gwybodaeth.
- Dylid datblygu dull cydlynol o ddeall a nodi'r pwerau deddfwriaethol mwyaf priodol i gefnogi anghenion rheoli risg a thriniaeth unigolion mewn lleoliadau carchar, gan ganolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl ac ystyried nodi asiantaeth/gwasanaeth arweiniol ar gyfer yr unigolyn.

5

Arferion da a nodwyd

- Cofnodwyd rhyngweithiadau'r asiantaethau â Mr X i safon dda, yn ogystal â phryderon a nodwyd.
- Roedd gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd ac yn ymdrechu i nodi dulliau cymorth i Mr X lle bynnag y bo modd. Lle'r oedd y risg yn cyfyngu ar y gefnogaeth y gellid ei chynnig, gweithiodd gweithwyr proffesiynol yn ddiwyd i geisio nodi atebion a fyddai'n caniatáu i Mr X gael mynediad at y gefnogaeth gywir iddo.
- Roedd yn amlwg bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n ddiwyd i helpu Mr X, ac roedd cydymdeimlad clir yn amlwg tuag ato ef a'i sefyllfa.
- Nododd gweithwyr proffesiynol yn gyflym fod Mr X wedi mynd ar goll, a bu cyfathrebu da rhwng gwasanaethau ar yr adeg hon.

4

Heriau diagnosis deuol a darparu gwasanaethau

Roedd yn ymddangos bod camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig yn gynhenid yn yr achos hwn, gan greu cymhlethdodau ynghylch cyflawni sefydlogrwydd a thriniaeth lwyddiannus. Mae'n bosibl bod achosion o ddiagnosis sy'n canolbwyntio ar seicosis a achosir gan gyffuriau wedi llesteirio triniaeth effeithiol ar gyfer problemau iechyd meddwl sylfaenol ac wedi creu tebygolrwydd cynyddol o gamddefnyddio sylweddau at ddibenion hunanfeddyginiaeth. Ar ôl ei ryddhau, mae tystiolaeth helaeth o gyfranogiad gan bob gwasanaeth perthnasol; fodd bynnag, nid oedd gan yr ardal leol wasanaethau arbenigol y gellid eu cynnig fel modd o'i gefnogi mewn argyfwng. O ganlyniad, parhaodd Mr X i geisio cymorth drwy alwadau 999, yr oedd eisoes wedi cael deddfryd droseddol o ganlyniad iddo ordddefnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal ag ymddygiad bygythiol tuag at yr heddlu.